

Polisi Diogeledd Gwybodaeth

Cyfeirnod: ISMS DOC 5.2

Rhif Cyhoeddi Citiau Dogfennaeth: 1.3

Rhif Cyhoeddi Sefydliadol: 3

Dyddiad Cyhoeddi Citiau Dogfennaeth 26/01/2022

Dyddiad Cyhoeddi Sefydliadol: 11/07/2022

Mae Pennaeth yr Uned Technolegau Iaith a Rheolwyr yr Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bedwyr, Neuadd Dyfrdwy, y Ganolfan Rheolaeth, Ffordd y Coleg, Bangor, y DU, LL57 2 DG, sydd yn y Sector Addysg yn cynnal Ymchwil a Datblygu, wedi ymrwymo i warchod cyfrinachedd, integriti ac argaeledd yr holl asedau gwybodaeth corfforol ac electronig, gan gynnwys gwybodaeth lle mae modd adnabod unigolyn (PII), drwy'r sefydliad er mwyn gwarchod ei fantais cystadleuol, llif arian, proffidioldeb, cydymffurfiad cyfreithiol, rheoleiddiol a chontractiol a'i ddelwedd fasnachol. Bydd gofynion gwybodaeth, preifatrwydd a diogeledd gwybodaeth yn parhau i fod wedi'u halinio gydag amcanion Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor, a bwriedir y system rheoli diogeledd gwybodaeth (ISMS) i fod yn fecanwaith galluogi er mwyn rhannu gwybodaeth, ar gyfer gweithrediadau electronig, ar gyfer Ymchwil a Datblygu mewn Technolegau Iaith yn arbenigo mewn ieithoedd llai eu hadnoddau ac ar gyfer lleihau risgiau yn ymwneud â gwybodaeth a phreifatrwydd i lefelau derbynol.

Ar ôl ystyried y sefydliad a'i gyd-destun, y partïon â diddordeb, eu hanghenion a'u disgwyliadau, awgrymir y cwmpas system rheoli diogeledd gwybodaeth a ganlyn:

Darparu meddalwedd a gweithrediadau anfon i'r marchnadoedd Addysg a Thechnolegau Iaith gan ddefnyddio meddalwedd, gwasanaethau cymorth a gwasanaethau lletya trydydd parti.

Mae cwmpas yr ISMS yn cynnwys rheoli diogeledd gwybodaeth sy'n ymwneud â darparu meddalwedd, systemau TG a gwasanaethau (technolegau iaith) i fodloni gofynion cleientiaid gan ddefnyddio adnoddau mewnol a gwasanaethau trydydd parti.

Mae hyn yn cynnwys:

- Yr holl asedau Corfforol a Gwybodaeth sy'n eiddo i Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor.
- Gwasanaethau, hyfforddiant a chefnogaeth a ddarperir i Gleientiaid.
- Data a ddarperir gan Gleientiaid.
- Cynhyrchion a gwasanaethau.
- Yr holl Staff.
- Darparwr yr amgylchedd lletya (ar gyfer cynnyrch masnachol) a ddefnyddir gan Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor.

Yr adeilad o fewn y cwmpas yw'r adeilad yng Nghanolfan Bedwyr, Neuadd Dyfrdwy, Canolfan Rheolaeth, Ffordd y Coleg, Bangor, Gwynedd, LL57 2DG, DU. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob aelod o staff sy'n gweithio yn Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor. Mae "aelod o staff" yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi ei gymryd ymlaen gan yr Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor fel cyflogai neu weithiwr a/neu sy'n dal swydd yn Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor, yn ogystal ag unrhyw berson y mae Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor yn darparu unrhyw freintiau neu gyfleusterau iddo/iddi a roddir fel arfer i'w gweithwyr. Lle mae myfyrwyr ymchwil yn gweithio i Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor mewn swyddogaeth ymchwil neu gysylltiedig, bydd y polisi hwn yn berthnasol iddynt hwy yn rhinwedd hynny fel pe baent yn gyflogeion i'r Brifysgol.

Mae Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion deddfwriaethol, rheoliadol a chytundebol perthnasol, gan gynnwys yr holl ddeddfwriaeth gwarchod PII berthnasol.

Mae cynllun busnes strategol a fframwaith rheoli risg cyfredol Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor yn darparu'r cyd-destun ar gyfer adnabod, asesu, gwerthuso a rheoli gwybodaeth sy'n ymwneud â risgiau sy'n ymwneud â phreifatrwydd drwy sefydlu a chynnal ISMS. Mae'r Asesiad Risg, Datganiad o Gymhwysedd a'r Cynllun Trin Risg yn nodi sut y caiff risgiau sy'n ymwneud â gwybodaeth a phreifatrwydd eu rheoli. Mae'r Eiriolwr Technoleg a Systemau yn gyfrifol am reoli a chynnal y cynllun trin risg. Gellir cynnal asesiadau risg ychwanegol, lle bo angen, er mwyn pennu rheolaethau priodol ar gyfer risgiau penodol.

Yn benodol, mae cynlluniau parhad busnes a chynlluniau wrth gefn, gweithdrefnau gwneud copïau wrth gefn o ddata, osgoi firysau a hacwyr troseddol, rheoli mynediad i systemau, a diogeledd gwybodaeth a rhoi gwybod am ddigwyddiadau preifatrwydd yn sylfaenol i'r polisi hwn. Mae amcanion rheoli ar gyfer pob un o'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr Gwybodaeth Diogeledd ac fe'u cefnogir gan bolisiau a gweithdrefnau penodol wedi'u dogfennu.

Nod Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor yw cyflawni amcanion diogeledd gwybodaeth a phreifatrwydd penodol, amcanion diffiniedig, a ddatblygir yn unol â'r amcanion busnes, cyd-destun y sefydliad, canlyniadau asesiadau risg a'r cynllun trin risg.

Disgwylir i holl Weithwyr/Staff Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a rhai partïon allanol a nodir yn y ISMS gydymffurfio â'r polisi hwn ac â'r ISMS sy'n gweithredu'r polisi hwn. Bydd yr holl weithwyr/staff, a rhai partïon allanol, yn derbyn neu'n gorfod darparu hyfforddiant priodol. Mae'r canlyniadau torri'r bolisiau diogeledd gwybodaeth a phreifatrwydd wedi'u nodi ym mholisi disgyblu Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor ac mewn cytundebau a chytundebau gyda thrydydd partïon.

Mae'r ISMS yn destun adolygiad a gwelliant parhaus, systematig.

Mae Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor wedi sefydlu grŵp llywio rheolaeth lefel uchaf / Pwyllgor Diogeledd Gwybodaeth, dan gadeiryddiaeth Pennaeth yr Uned Technolegau Iaith ac yn cynnwys y Eiriolwr Technoleg a Systemau a swyddogion gweithredol/arbenigwyr/arbenigwyr risg eraill i gefnogi'r fframwaith ISMS ac adolygu'r polisi diogeledd o bryd i'w gilydd.

Mae Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ennill ardystiad o'i ISMS i ISO 27001:2013.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu i ymateb i unrhyw newidiadau yn yr asesiad risg neu'r cynllun trin risg ac o leiaf yn flynyddol.

Yn y polisi hwn, diffinnir 'diogeledd gwybodaeth' fel:

Cadw

Mae hyn yn golygu bod gan reolwyr, yr holl Weithwyr/Staff amser llawn neu ran-amser, is-gontractwyr, ymgynghorwyr project ac unrhyw bartïon allanol gyfrifoldebau (a ddiffinnir yn eu disgrifiadau swydd, neu gontractau) ac byddant yn cael eu gwneud yn ymwybodol ohonynt, i gadw diogeledd gwybodaeth a phreifatrwydd, i adrodd am doriadau diogeledd a phreifatrwydd (yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau a nodir yn adran 16 o'r Llawlyfr Diogeledd Gwybodaeth) a gweithredu yn unol â gofynion yr ISMS. Bydd yr holl Weithwyr/Staff yn derbyn gwybodaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth diogeledd a phreifatrwydd, a bydd Gweithwyr/Staff mwy arbenigol yn derbyn hyfforddiant gwybodaeth arbenigol a diogeledd preifatrwydd yn ôl fel sy'n briodol.

cyfrinachedd,

Mae hyn yn golygu sicrhau mai dim ond y rhai sydd wedi'u hawdurdodi sy'n medru cyrchu'r wybodaeth ac felly mae'n atal mynediad bwriadol a damweiniol heb awdurdod at wybodaeth berchnogol Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a'i systemau gan gynnwys ei rhwydwaith(au), gwefan(nau), allrwyd(au), a systemau e-fasnach.

integriti

Mae hyn yn cynnwys diogelu cywirdeb a chyflawnrwydd gwybodaeth a dulliau prosesu, a felly mae angen atal dinistr bwriadol neu ddamweiniol, rhannol neu gyflawn, neu addasu anawdurdodedig, i asedau corfforol neu ddata electronig. Rhaid cael trefniadau wrth gefn priodol gan gynnwys rhai ar gyfer rhwydwaith(au), system(au) e-fasnach, gwefan(nau), allrwyd(au) a chynlluniau gwneud copïau wrth gefn o ddata ynghyd ag adrodd am ddigwyddiadau yn ymwneud â diogeledd a phreifatrwydd. Rhaid i Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â data a phreifatrwydd yn yr awdurdodaethau hynny y mae'n gweithredu oddi mewn iddynt.

ac argaeledd

Mae hyn yn golygu y dylai gwybodaeth ac asedau cysylltiedig fod yn hygyrch i Ddefnyddwyr awdurdodedig pan fo angen ac felly yn gorfforol ddiogel. Rhaid i'r rhwydwaith cyfrifiadurol fod yn wydn a rhaid i Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor allu canfod ac ymateb yn gyflym i ddigwyddiadau (fel firysau a maleiswedd eraill) sy'n bygwth argaeledd parhaus asedau, systemau a gwybodaeth. Mae'n rhaid bod cynlluniau parhad busnes priodol yn bodoli.

yr (asedau) corfforol

Asedau corfforol Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i galedwedd cyfrifiadurol, ceblau data, systemau ffôn, systemau ffeilio a ffeiliau data corfforol.

ac asedau gwybodaeth

Mae'r asedau gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth (boed PII neu fel arall) wedi'i hargraffu neu wedi'i hysgrifennu ar bapur, yn cael ei throsglwyddo drwy'r post neu ei dangos mewn ffilmiau, neu ei siarad mewn sgwrs, yn ogystal â gwybodaeth sy'n cael ei storio'n electronig ar weinyddion, gwefan(nau), allrwyd(au), mewnrwyd(au), cyfrifiaduron personol, gliniaduron, ffonau symudol a PDAs, yn ogystal ag ar CD ROMs, disgiau hyblyg, ffyn USB, tapiau wrth gefn ac unrhyw gyfrwng digidol neu fagnetig arall, a gwybodaeth a drosglwyddir yn electronig trwy unrhyw fodd. Yn y cyd-destun hwn, mae 'data' hefyd yn cynnwys y setiau o gyfarwyddiadau sy'n dweud wrth y system(au) sut i drin gwybodaeth (h.y. y feddalwedd: systemau gweithredu, cymwysiadau, cyfleustodau, ac ati).

Yr Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor.

Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor a'r partneriaid hynny sy'n rhan o'n rhwydwaith integredig a wedi arwyddo i'n polisi diogeledd gwybodaeth a phreifatrwydd ac wedi derbyn ein ISMS.

Yr **ISMS** yw'r system rheoli diogeledd gwybodaeth, y mae'r polisi hwn, y Llawlyfr Diogeledd Gwybodaeth a dogfennaeth ategol a chysylltiedig eraill yn rhan ohoni, ac sydd wedi'i chynllunio yn unol â'r manylbau a gynhwysir yn ISO 27001:2013.

Torri diogeled yw unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n achosi, neu a allai achosi, chwalfa yn y cyfrinachedd, integriti neu argaeledd asedau gwybodaeth gorfforol neu electronig Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor.

Torri preifatrwydd yw unrhyw ddigwyddiad neu weithgaredd sy'n achosi, neu a allai achosi, chwalfa yng nghyfrinachedd, integriti neu argaeledd asedau PII Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor.

Perchennog y ddogfen a chymeradwyaeth

Yr Eiriolydd Technoleg a Systemau yw perchennog y ddogfen hon ac mae'n gyfrifol am ei chadw yn gyfredol.

Mae fersiwn gyfredol y ddogfen hon ar gael i Unrhyw un ac mae wedi'i chyhoeddi. Ceir dogfen o'r enw hwn yn OneDrive Dolen Yma

A chaiff ei storio ar techiaith.bangor.ac.uk

Gellir gweld ei statws cymeradwyo yn y Brif Restr Cymeradwyo Dogfennau.